



Arweiniad Mabwysiadu i Blant

Gwasanaeth Rhanbarthol
Mabwysiadu Bae'r Gorllewin



Western Bay
ADOPTION SERVICE
GWASANAETH MABWYSIADU
Bae'r Gorllewin



Gwasanaeth
Mabwysiadu
Cenedlaethol

National
Adoption
Service

Arweiniad Mabwysiadu Abertawe i Weithwyr Cymdeithasol

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin yn bartneriaeth o dri awdurdod lleol, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a ddechreuodd weithredu ym mis Ebrill 2015.


Mae'n un o bum rhanbarth yng Nghymru sy'n ffurfio'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Bwriedir i'r Arweiniad Mabwysiadu hwn i Blant gael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd er mwyn iddo fod yn berthnasol i blant o oedrannau gwahanol a lefelau gwahanol o dealltwriaeth.

- Mae'r holl dudalennau'n rhydd yn fwriadol ac heb rifau tudalennau. Gall gweithwyr cymdeithasol a/neu ofalwyr maeth ddewis y rhannau sy'n berthnasol i blant gwahanol gan ddibynnu ar eu hoedran a'u hamgylchiadau personol. Gellir rhoi'r rhain gyda'i gilydd mewn ffolder ac ychwanegu ato wrth i'r plentyn dyfu a'r amgylchiadau'n newid. Er enghraifft, hwyrach na fydd angen yr adran sy'n disgrifio'r barnwr ar blant iau. Neu hwyrach na fydd angen y rhan honno ar rai plant nes i hynny fod yn berthnasol iddynt, ac osgoi unrhyw ddryswch.
- Gellir llungopio rhai rhannau er mwyn eu defnyddio'n fwy eang neu os yw cynlluniau'n newid, er enghraifft, yr amserlen i blant neu'r cwestiynau y maent am eu gofyn.
- I blant ifanc, bydd yn rhaid darllen rhai rhannau a hwyrach bydd y pwyslais ar y rhannau sy'n eu cynnwys yn fwy, megis tynnu lluniau. Hwyrach y bydd cydnabod eu teimladau'n bwysicach na'u dealltwriaeth o gysyniad mabwysiadu. Efallai y bydd plant hŷn yn barod i fynd drwyddo ar eu pennau eu hunain.
- Efallai y bydd angen Makaton neu arwyddo i blant ag anableddau penodol. Bydd yn rhaid darllen y canllaw i blant â nam ar eu golwg.
- Os oes ansicrwydd ynghylch lefel dealltwriaeth plentyn, hwyrach y bydd yn rhaid defnyddio'r canllaw hwn ar y cyd ag adnoddau eraill er mwyn i'r plentyn fynegi ei deimladau ac emosiynau.

Bydd y llyfryn yma'n eich helpu i ddeall beth yw mabwysiadu ac yn ateb rhai o'r cwestiynau sydd gennych.

Gallwch ei ddarllen gyda'ch gofalwyr maeth neu eich gweithiwr cymdeithasol a gofyn am unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall, neu ddweud wrthynt sut rydych chi'n teimlo.



Beth yw mabwysiadu?

Fe fu pob un ohonom yn fabanod ar un adeg ac mae teulu gan bob un ohonom y cawsom ein geni iddo.

Yr enw ar y teulu yma yw ein 'teulu geni', a gall gynnwys mam a thad, brodyr a chwiorydd, teidiau a neiniau, modrybedd, ewythredd a chefn dryd.

Ambell waith, nid yw'r teuluoedd y mae'r plant yn cael eu geni iddynt yn gallu edrych ar eu hól. Mae rhai rhieni'n ei

chael hi'n anodd ymdopi â gofalu am blant yn iawn. Mae rhai rhieni'n brifo eu plant mewn ffyrdd gwahanol, ac mae'n bwysig nad yw plant yn cael eu brifo.


Mae rhai teuluoedd geni'n deall nad ydynt yn gallu gofalu am eu plentyn yn iawn, ac yn cytuno y byddai'n well os nad yw'r plentyn yn byw gyda hwy.

Nid yw rhai teuluoedd am i'w plant beidio â byw gyda hwy

er nad ydynt yn gallu gofalu amdanynt yn iawn na'u cadw'n ddiogel. Yna gall gweithwyr cymdeithasol a barnwr benderfynu ei fod yn well nad yw'r plentyn yn byw gyda hwy.



Beth yw Gweithiwr Cymdeithasol?



Gweithiwr cymdeithasol yw rhywun sy'n gweithio i helpu pobl pan fydd problemau ganddynt.


Ambell waith, mae'n rhaid iddynt helpu teuluoedd. Os ydynt yn pryderu am y plant neu'n meddwl bod angen help ar y teulu, gallant ddod o hyd i deulu maeth y gall y plentyn fyw gyda hwy, fel y teulu rydych chi'n byw gyda hwy nawr, nes iddynt benderfynu ar beth sydd orau i'r plentyn neu'r plant.

Beth yw barnwr?

Mae barnwr yn gweithio mewn llys, lle mae pob math o benderfyniadau'n cael eu gwneud.

Rydym yn aml yn meddwl am lysoedd fel mannau lle mae

pobl sydd wedi gwneud rhywbeth anghywir efallai yn mynd fel bod barnwr yn gallu penderfynu beth i'w wneud amdanynt. Llysoedd fel y rheiny yw llawer o'r llysoedd rydym yn eu gweld ar y teledu. Ond gall llysoedd hefyd helpu i ddatrys problemau, yn enwedig mewn teuluoedd. Gallant ddod i benderfyniadau am blant er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael gofal a'u bod yn ddiogel.



Un o'r materion y mae barnwr yn gallu penderfynu arno yw a ddylech chi fyw gyda'ch teulu geni ai peidio.

Os yw'n penderfynu na all plentyn fyw gyda'i deulu geni, mae'n cytuno ambell waith y dylai'r plentyn gael cyfle i berthyn i deulu newydd a dyma beth yw mabwysiadu. Mae mabwysiadu'n golygu y byddwch yn mynd i fyw gyda theulu a fydd yn gofalu amdanoch ac y byddwch yn perthyn iddynt. Byddant yn rhieni i chi a bydd unrhyw blant yn y teulu yn frodyr a chwiorydd i chi.



Dyw hynny ddim yn golygu bod yn rhaid i chi anghofio am eich teulu geni.

Weithiau, mae'n iawn i blant gadw mewn cysylltiad â rhai aelodau o'u teulu geni os ydynt am wneud hynny.

Gall hyn olygu y gallant eu gweld nawr ac yn y man neu gall olygu eu bod yn gallu anfon llythyron.

Weithiau mae'n well os na fyddant yn cadw mewn cysylltiad am fod hynny ambell waith yn ypsetio neu efallai nad yw'n helpu. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn penderfynu beth sydd orau i chi, ond gallwch ddweud wrtho/wrthi sut rydych chi'n teimlo am gadw mewn cysylltiad. Os yw'r gweithiwr cymdeithasol yn pryderu os byddwch yn gweld eich teulu, hyd yn oed os ydych am wneud hynny, bydd yn esbonio pam mae'n meddwl na fyddai'n beth da.

Hyd yn oed os na fyddwch yn cadw mewn cysylltiad â'ch teulu geni, gallwch holi amdanynt o hyd.

Gall rhieni geni barhau i garu eu plentyn er nad ydynt yn gallu gofalu amdano'n iawn na'i gadw'n ddiogel.

Beth am fy mrodyr a'm chwiorydd?


Os oes gennych frodyr a chwiorydd, mae'n bosib eu bod mewn gofal maeth gyda chi.

Er bod y gweithwyr cymdeithasol yn gwneud eu gorau glas

i gadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd, nid yw hynny'n bosib bob tro. Os bu'n rhaid i chi fynd at deulu maeth

gwahanol i'ch brodyr neu chwiorydd, bydd eich gweithiwr cymdeithasol wedi ceisio cadw cysylltiad rhyngoch chi.

Os nad yw'n bosib i chi fynd at yr un teulu newydd, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gwneud ei orau glas i weld eich bod yn gallu cadw mewn cysylltiad, er, unwaith eto, efallai na fydd hynny'n bosib bob tro.



O ble mae mabwysiadwyr yn dod?

Mae rhai teuluoedd a fyddai'n hoffi bod plentyn yn dod i fyw gyda hwy a pherthyn iddynt.

Efallai na fydd gan rai o'r teuluoedd hyn blant wedi'u geni iddynt; bydd plant gan rai; bydd plant sydd wedi tyfu i fyny gan rai; efallai bydd rhai wedi mabwysiadu o'r blaen. Cyn bod plentyn yn dod i fyw atynt, bydd gweithwyr cymdeithasol yn treulio llawer o amser yn dod i'w hadnabod ac yn sicrhau eu bod yn gallu gofalu am blant yn iawn a'u cadw'n ddiogel.

Bydd gweithwyr cymdeithasol yn ceisio dod o hyd i'r teulu sy'n iawn i chi. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn siarad â chi ac yn dweud sut mae'n ceisio chwilio am deulu. Gallwch chi hefyd ddweud wrtho/wrthi beth sy'n bwysig i chi mewn teulu. Pan fydd yn meddwl ei fod wedi dod o hyd i deulu a fydd yn iawn i chi, bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn dweud popeth amdanynt ac efallai'n dangos lluniau i chi. Bydd wedyn yn trefnu i'r teulu ddod i ymweld â chi er mwyn i chi ddechrau dod i'w nabod ac iddynt hwythau ddechrau dod i'ch nabod chi.

Cewch gyfle hefyd i dreulio amser gyda hwy, efallai ambell ddiwrnod gyda hwy a gwneud pethau gyda'ch gilydd, er mwyn i chi ddod i nabod eich gilydd yn well.



Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn dod i'ch gweld a gweld sut mae pethau'n datblygu a sut rydych chi'n teimlo am yr hyn sy'n digwydd. Pan fyddwch chi a phawb arall yn credu eich bod yn nabod eich gilydd yn ddigon da ac yn barod am y cam nesaf, cewch fynd i fyw gyda hwy.

Os nad ydych chi'n teimlo'n hapus am y teulu newydd, neu os ydych yn teimlo'n ddryslyd neu'n bryderus, dywedwch wrth eich gweithiwr cymdeithasol neu eich gofalwr maeth.

Ambell waith mae plant yn gallu teimlo'n ansicr am bopeth sy'n digwydd a gall siarad â rhywun eu helpu i deimlo'n well. Mae'n bwysig eich bod yn ceisio dweud sut rydych yn teimlo.



Unwaith y byddda i'n mynd i fyw gyda nhw ydw i wedi fy mabwysiadu?

Na. Ddim ar unwaith. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â chi gyda'ch teulu newydd ac yn siarad â chi i weld sut rydych yn ymgartrefu ac a oes gennych chi unrhyw bryderon.

Pan fyddwch wedi byw gyda'ch teulu newydd am gyfnod a phawb yn teimlo y byddai'n dda cymryd y cam nesaf, bydd eich rhieni newydd yn gofyn i'r llys a allant eich mabwysiadu.

Bydd barnwr yn y llys yn trefnu dyddiad pan fyddwch chi a'ch teulu newydd a'ch gweithiwr cymdeithasol yn mynd i gwrdd ag ef i siarad am sut mae pethau'n mynd. Os yw popeth i weld yn iawn, mae'r barnwr yn trefnu rhywbeth o'r enw Gorchymyn Mabwysiadu. Dyma pryd y byddwch yn rhan o'ch teulu newydd yn gyfreithiol.



Mae hynny'n golygu eich bod yn perthyn iddynt a hwythau'n perthyn i chi. Ond nid yw'n golygu bod yn rhaid i chi anghofio am eich teulu geni na bod yn rhaid iddynt hwy anghofio amdanoch chi. Gallwch ofyn cwestiynau amdanynt a siarad amdanynt â'ch teulu newydd.

A fydda i'n dal i fynd i'r un ysgol?

Mae'n dibynnu pa mor bell o'ch ysgol y mae'ch teulu newydd yn byw.


Efallai y bydd yn rhaid i chi newid ysgol, ond bydd pawb yn ceisio'ch helpu a gwneud yn siŵr eich bod yn ymgartrefu'n dda.



A fydda i'n gallu gweld fy ffrindiau o hyd?

Unwaith eto, mae'n dibynnu ble mae'ch teulu newydd yn byw.

Ond byddant yn gwneud eu gorau glas i'ch helpu i gadw mewn cysylltiad â'ch ffrindiau a'ch helpu i wneud rhai newydd.



Beth os nad ydw i'n hapus am yr hyn sy'n digwydd?

Ambell waith, pan fydd plant yn clywed am y tro cyntaf am gael eu mabwysiadu, gallant deimlo'n drist neu ychydig yn bryderus.

Efallai y byddwch chi'n teimlo fel'na. Efallai y byddwch yn teimlo'n eitha hapus a bodlon gyda'ch gofalwyr maeth ac nad ydych am symud. Neu efallai y byddwch yn teimlo eich bod yn colli eich teulu geni. Os ydych yn teimlo'n anhapus dylech siarad â'ch gweithiwr cymdeithasol yn y lle cyntaf. Gallwch hefyd siarad â'ch gofalwyr maeth. Os ydych yn teimlo'n anhapus ar ôl i chi symud at eich teulu newydd, efallai y byddwch yn teimlo y gallwch siarad am eich teimladau gyda hwy. Gallwch hefyd siarad â'r gweithiwr cymdeithasol sy'n gweithio yn y fîm mabwysiadu, a fydd yn ymweld â'ch teulu newydd i weld sut mae pethau'n datblygu.

Os ydych chi'n dal i deimlo'n anhapus ar ôl siarad â phobl neu os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu siarad â neb, gallwch wneud dau beth:

- cwyno wrth yr asiantaeth sy'n penderfynu drosoch chi, neu...
- gallwch gysylltu ag asiantaeth annibynnol, lle mae pobl nad ydynt yn gweithio dros yr asiantaeth sy'n gwneud y penderfyniadau

Os ydych am gwyno wrth yr asiantaeth, mae'n bosib i chi ddweud hynny wrth eich gweithiwr cymdeithasol, os ydych yn teimlo y gallwch, a bydd yn esbonio sut i wneud hynny.

Os ydych am gysylltu ag asiantaeth annibynnol, mae'r holl wybodaeth ar gael ar ddiwedd y llyfryn yma.



Fy meddyliau i am yr hyn sy'n digwydd

Mae'r tudalennau nesaf ar eich cyfer chi.
Gallwch ddweud y pethau rydych chi am eu dweud.
Gallwch ddweud beth yw eich teimladau am gael eich
mabwysiadu.

Gallwch ysgrifennu unrhyw gwestiynau sydd gennych.
Gallwch dynnu lluniau. Gallwch ddweud y pethau y byddech
chi'n hoffi eu cael yn eich teulu newydd. Gallwch ddweud
y pethau y byddech am i'ch teulu newydd eu gwybod
amdanoch chi.



Dyma fy marn i am fabwysiadu

Handwriting practice lines consisting of 20 horizontal dotted lines.

Dyma rai o'm cwestiynau i...




Eich cyfle i ddweud beth byddech chi'n ei hoffi

Dyma'r pethau y byddwn am eu cael yn fy nheulu newydd...

Dyma'r bobl y byddwn am gadw mewn cysylltiad â nhw...

Amdanaf i




Rwy'n hoffi mynd i'r gwely gyda'r: ☐ drws ar agor ☐ ar gau

Rwy'n hoffi cysgu gyda fy ngolau: ☐ on ☐ off

Dyma rai o'r pethau rwy'n hoffi eu gwneud...

Dyma rai o'r pethau dw i ddim yn hoffi eu gwneud...

Dyma rai o'r pethau rwy'n hoffi eu bwyta...



Dyma'r bwydydd dw i ddim yn eu hoffi...

Pethau eraill rwyf am iddynt wybod...

Fy amserlen...

Pan fydd cynlluniau wedi'u trefnu i mi, gallaf ddefnyddio'r amserlen yma i'm helpu i wybod pryd fydd pethau'n digwydd.

Dydd/ Dyddiad	Beth sy'n digwydd	Sut rwy'n teimlo Gallwch dynnu llun neu ysgrifennu rhywbeth

Enwau a manylion cyswllt pobl y gallaf siarad â nhw...

Fy ngweithiwr cymdeithasol:

Enw: _____

Rhif ffôn: _____

E-bost: _____



Os ydych yn anhapus am rywbeth y mae'ch gweithiwr cymdeithasol wedi ei ddweud neu ei wneud, gallwch gysylltu â'i reolwr, sef:

Enw: _____

Rhif ffôn: _____

E-bost: _____

Eich gweithiwr cymdeithasol yn y Tîm Mabwysiadu:

Enw: _____

Rhif ffôn: _____

E-bost: _____

Os ydych yn anhapus am rywbeth y mae eich gweithiwr cymdeithasol yn y Tîm Mabwysiadu wedi ei ddweud neu wedi ei wneud, gallwch gysylltu â'i reolwr, sef:

Enw: _____

Rhif ffôn: _____

E-bost: _____

Gwybodaeth Ddefnyddiol...

Mae'r sefydliadau canlynol yn annibynnol, sy'n golygu nad ydynt yn gweithio i'r awdurdod lleol, yr asiantaeth sy'n gwneud y penderfyniadau drosodd chi. Byddant yn helpu i wneud yn siŵr bod rhywun yn gwrando ar eich barn, os ydych yn teimlo nad yw pobl wedi bod yn gwrando arnoch chi.

Voices from Care

Rhadffôn: 029 20451431

E-bost: info@vfcc.org.uk

Child Law Advice Line

Rhif ffôn: 0300 330 5480

Talk Adoption

Rhadffôn: 0808 808 1234

E-bost: talkadoption@afteradoption.org.uk

Bydd Talk Adoption yn gwrando arnoch chi ynglŷn ag unrhyw beth sy'n ymwneud â mabwysiadu.

Childline

Rhadffôn: 0800 881111

Bydd Childline yn gwrando arnoch chi ynglŷn ag unrhyw beth ac yn arbennig, mae'n helpu plant sy'n cael eu brifo.

Enw'r **Comisiynydd Plant yng Nghymru** yw **Sally Holland**. Gwaith Sally yw sefyll a siarad dros blant a phobl ifanc. Mae'n gweithio i sicrhau bod plant yn ddiogel.

Gallwch gysylltu â Sally Holland drwy'r canlynol: Rhadffôn plant a phobl ifanc: **0808 801 1000** neu decstio **80 800** a dechrau'ch neges â COM

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth, Ffordd Ffenics

Llansamlet, Abertawe. SA7 9FS

FFÔN01792 765600

FFACS01792 765601

E-BOSTpost@childcomwales.org.uk

GWEFAN ...www.childcom.org.uk

Ein cyfrifoldeb i chi...

Mae eich gweithiwr cymdeithasol yn gweithio i'r awdurdod lleol lle rydych yn byw. Mae gan yr awdurdod lleol rywfaint o gyfrifoldeb am wneud penderfyniadau drosoch.

Mae llawer o bobl yn gweithio i'r awdurdod lleol hwn, a phob un ohonynt am helpu plant a phobl ifanc. Mae'n rhaid i bob asiantaeth gael 'Datganiad o Ddiben', sy'n llyfryn sy'n esbonio'r pethau sy'n bwysig ym marn y bobl sy'n gweithio i dîm mabwysiadu Abertawe.

Dyma rai enghreifftiau:

- Mae'n rhaid iddynt ddod o hyd i deulu sy'n iawn i chi...
- Mae'n rhaid iddynt sicrhau y bydd eich teulu newydd yn eich cadw'n ddiogel ac yn gofalu amdanoch chi'n dda ...
- Mae'n rhaid iddynt wrando ar eich dymuniadau a'ch teimladau am gael eich mabwysiadu...
- Byddant yn sicrhau bod eich teulu newydd yn cael help i ofalu amdanoch chi nawr a thrwy'r adeg pan fyddwch yn tyfu ...

Os ydych am wybod mwy am sut mae'r awdurdod lleol yn gweithredu, gofynnwch i'ch gweithiwr cymdeithasol gael gafael ar fwy o wybodaeth i chi.

Mae'r ddogfen hon yn hefyd ar gael yn y Saesneg.
This document is also available in English.

